

PWYLLGOR **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

DYDDIAD **25 MAI 2023**

TEITL **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

PWRPAS YR ADRODDIAD **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD
HYD AT 31 MAWRTH 2023**

AWDUR **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO**

GWEITHREDIAD **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A
CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U
CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL**

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 25 Ionawr 2023 hyd 31 Mawrth 2023.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol o gynllun 2022-23 yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	12

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Taliadau Cymorth Costau Byw	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	Uchel	Atodiad 1
Taliadau Ychwanegol i Weithwyr Gofal Rhan 2	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	Uchel	Atodiad 2
Diogelu Data	Cyllid	Technoleg Gwybodaeth	Digonol	Atodiad 3
Cynllunio Trefniadau Cyfathrebu	Amgylchedd	Cynllunio ac Amgylchedd	Cyfyngedig	Atodiad 4
Trefniadau Clefyd Coed Ynn	Priffyrdd, Peirianeg a YGC	-	Digonol	Atodiad 5
Rheoli Prosiectau YGC	Priffyrdd, Peirianeg a YGC	YGC	Digonol	Atodiad 6
Neuadd Dwyfor	Economi a Chymuned	Rhaglenni Datblygu Economaidd	Digonol	Atodiad 7
Canolfan Fusnes Ysgolion	Addysg	Adnoddau	Digonol	Atodiad 8
Cinio am Ddim	Addysg	Adnoddau	Uchel	Atodiad 9
Trefniadau Recriwtio a Dargadw Staff (Oedolion)	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Ar draws yr Adran	Digonol	Atodiad 10

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Mesurau Diogelu Amddiffyn Rhyddid	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Ar draws yr Adran	Cyfyngedig	Atodiad 11
Manddaliadau	Tai ac Eiddo	Tai ac Eiddo	Cyfyngedig	Atodiad 12

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Mawrth 2023:

- Diogelwch Seicolegol (*Corfforaethol*)

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 25 Ionawr 2023 hyd 31 Mawrth 2023, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

TALIADAU CYMORTH BYW

1. Cefndir

- 1.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2022 becyn o fesurau er mwyn helpu pobl gyda'r argyfwng costau byw. Mae'r becyn yn cynnwys £152m ar gyfer darparu taliad costau byw o £150 i bob aelwyd cymwys o dan y prif gynllun a £25m er mwyn darparu cymorth disgresiynol at ddibenion eraill sy'n ymwneud â chostau byw. Cyhoeddwyd canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu cyflwyno a gweinyddu taliadau o dan y Cynllun Cymorth Costau Byw a Chynllun Cymorth Disgresiynol ar ran Llywodraeth Cymru.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn adnabod a dosbarthu taliadau Cynllun Costau Cymorth Byw i bob aelwyd cymwys. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o daliadau a wnaethpwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu yn briodol ac yn unol â chanllawiau Cynllun Cymorth Costau Byw Llywodraeth Cymru, a bod trywydd archwilio digonol i'w cefnogi.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Gwelwyd bod cwmni '*Capita*' wedi creu rhaglen yn y system treth cyngor er mwyn adnabod pob eiddo cymwysedig, gan eithrio unrhyw dai gwag ac eiddo o dan gymdeithasau tai neu gwmnïau ayb. Fel man cychwyn, cafodd cyfrifon cymwysedig gyda manylion banc byw (h.y. y sawl sy'n talu treth cyngor drwy ddebyd uniongyrchol) daliad drwy BACS. Yn syml, dilynwyd yr un drefn ar gyfer y Cynllun Dewisol (llai pob cyfrif oedd eisoes wedi eu talu yn y Prif Gynllun, perchenogion tai rhent, tai ambreswyliaeth ayb) cyn parhau wedyn â'r un camau â'r Prif Gynllun.
- 4.2 Ar gyfer y gweddill na dalwyd drwy BACS, trefnwyd bod derbynyddion yn derbyn llythyr er mwyn casglu'r taliad drwy 'Allpay' mewn swyddfa post. Nodwyd bod y dosbarthiad wedi digwydd mewn camau (o fewn ardaloedd Arfon, Arfon a Dwyfor, a Meirionydd), er mwyn rheoli risg o dderbyn nifer eithafol o ymholiadau gan y cyhoedd. Nodwyd hefyd bod dyddiad dod i ben yn 30 diwrnod ar allu casglu arian drwy swyddfa post.

- 4.3 Ar gyfer y taliadau na gasglwyd o fewn y 30 diwrnod, roedd modd hidlo'r wybodaeth yn bellach a crëwyd ffurflen pwrpasol ar system 'FFOS' ar gyfer sefydlu ceisiadau ar y wê, gan ofyn i'r ymgeisydd gofnodi cyfrif a PIN i alluogi casglu'r arian. Yr opsiwn arall oedd i gasglu'r taliad eto drwy swyddfa post neu drwy broses BACS o fewn system taliadau y Cyngor.
- 4.4 Nodir yn nghanllawiau Llywodraeth Cymru *'Bwriedir i'r prif gynllun ddarparu cymorth untro i bob aelwyd gymwys er y gellir darparu cymorth ychwanegol o dan y Cynllun Disgresiynol i aelwydydd sydd wedi cael cymorth o dan y prif gynllun. Bydd angen i awdurdodau sicrhau bod ganddynt systemau ar waith i atal taliadau dyblyg rhag cael eu gwneud yn anfwriadol i aelwydydd lle mae'r deiliad tŷ neu ei bartner eisoes wedi cael taliad gan yr awdurdod o dan y cynllun naill ai fel un person neu fel rhan o'r un aelwyd neu aelwyd wahanol'*. Yn dilyn y dosbarthiad ffurflen wê i gasglu'r arian, cedwir y manylion ar brif gofrestr, sef gweddill o'r aelwydydd cymwysedig (eithrio/hidlo allan ail dai a tai haf) a'u diweddarau yn ddyddiol gyda taliadau sydd wedi'u gwneud. Roedd hyn yn rheoli risg o daliadau dyblyg i'r cyfrif (drwy 'FFOS' yn amlygu ceisiadau manylion dyblyg/annilys wrth fewngofnodi'r rhif cyfrif a rhif PIN) ac ar gyfer delio ag ymholiadau'r cyhoedd, yn ogystal ag adnabod aelwydydd anghymwys h.y. sawl gydag mwy nag un tŷ a tai haf. Golyga hefyd, er bod systemau adrannau megis 'Academy Revenues and Benefit', dyledwyr a chredydwyr yn ymddengys bod taliad wedi'u gwneud, mae trywydd archwilio priodol yn bodoli yn dangos y gwir sefyllfa. O'r sawl nad oedd wedi casglu erbyn i'r cynllun gwreiddiol ddod i ben ddiwedd Medi 2022, trosglwyddwyd rhain i'r cynllun disgresiwn.
- 4.5 Derbyniwyd tystiolaeth ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cynnal cysoniadau cyflawn o'r arian cymorth costau byw a dalwyd allan, gyda'r arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 4.6 O'r cysoniadau, gwelwyd bod dychweliadau BACS wedi cael eu adnabod a'u trin yn briodol a gellir cadarnhau y ffigyrau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

TALIADAU YCHWANEGOL I WEITHWYR GOFAL (RHAN 2)**1. Cefndir**

1.1 Ar y 10fed o Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod cyllideb o £43m ar gyfer taliadau ychwanegol i staff gofal cymdeithasol er mwyn adlewyrchu cyflog byw gwirioneddol. Cyhoeddwyd bod y taliad yn berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal ac yn y maes gofal cartref, yn y gwasanaethau oedolion a phlant a hefyd i gynorthwyyr personol ariannir drwy daliadau uniongyrchol. Gwnaed y taliad i staff gofal cymdeithasol a oedd yn cael eu cyflogi mewn rôl gymwys ar 31 Mawrth 2022 a'r rhai a ddechreuodd mewn rôl cymwys rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022. Talwyd swm gros o £1,498 sydd yn golygu bod gweithwyr gofal cymdeithasol ar y gyfradd dreth sylfaenol yn derbyn oddeutu £1,000 yn eu pecyn cyflog ar ôl didyniadau. Roedd y taliad ar gael mewn un taliad neu mewn rhandaliadau misol ac yn cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol ar ran Lywodraeth Cymru.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu taliadau ychwanegol i weithwyr gofal. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau gan sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer eu dilysu cyn eu talu a'u bod wedi'u gweinyddu yn unol â chyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Adroddir ar ganlyniad yr archwiliad mewn dau rhan; Rhan 1 yn dilyn dilysu a thalu ceisiadau i weithwyr gofal hyd at mis Awst 2022 ac mae rhan 2 yn adrodd ar y drefn ad-hawlio arian yn ôl gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2022 er mwyn sicrhau cywirdeb a chyflawnder y gwaith, gan gynnwys adnabod ac ad-ennill unrhyw ceisiadau dyblyg ble'n berthnasol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn ar gyfer Rhan 2 Taliadau Ychwanegol i Weithwyr Gofal:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwelwyd bod cyfarwyddiadau wedi eu derbyn gan Lywodraeth Cymru a bod y Cyngor wedi eu dilyn wrth weinyddu y taliadau ychwanegol i weithwyr gofal a'u bod yn unol â'r amserlen.

- 4.2 O'r taliadau dyblyg a gafodd eu hadnabod gan y Swyddog Categori a Datblygu yn Hydref 2022, gwelwyd yn y ffurflen gais a dalwyd i'r darparwyr allanol bod y symiau wedi cael eu ad-ennill h.y. wedi'u didynnu o gais ad-daliad y darparwyr allanol.
- 4.3 Cyflwynwyd y cais grant terfynol i Lywodraeth Cymru ddiwedd Rhagfyr 2022 a gwelwyd bod cysoniad wedi'i gynnal yn cyflawn gan y Cyfrifydd Grŵp.
- 4.4 Cadarnhawyd nad yw Llywodraeth Cymru wedi talu'r arian grant i Gyngor Gwynedd hyd yn hyn ond derbyniwyd e-bost gan Lywodraeth Cymru bod bwriad prosesu'r taliadau erbyn Mawrth 2023.
- 4.5 Derbyniwyd rhestr yn adnabod 2 daliad dyblyg gan cwmni allanol a gyflogwyd gan Lywodraeth Cymru i adnabod ceisiadau dyblyg ar draws yr holl gynghorau lleol. O'r 2 daliad dyblyg, derbyniwyd sicrwydd gan y Swyddog Categori a Datblygu bod un na ellir ei adennill oherwydd nid yw'n cyflogedig bellach yng Ngwynedd a bydd hyn yn cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru i'w ddatrys, ac mae ymchwiliadau i'r ail daliad yn cael eu cynnal ar hyn o bryd i'w ddilysu.

5. Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cadarnhau os yw'r taliadau dyblyg a adnabuwyd drwy Lywodraeth Cymru yn ddilys ac angen ei hadennill.**
- **Cadarnhau bod taliad grant terfynol wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Mawrth 2023.**

DIOGELU DATA - CYLLID**1. Cefndir**

1.1 Mynegir Polisi Diogelu Data Cyngor Gwynedd “Yn ei waith, bydd y Cyngor yn creu, casglu, storio a phrosesu llawer iawn o wybodaeth bersonol am aelodau'r cyhoedd, staff, cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth ac eraill. O'r herwydd, mae angen glynu at ddeddfwriaeth diogelu data, sef Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Gyfunol (UK GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.”

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn sicrhau bod adran Gyllid y Cyngor yn cydymffurfio gyda rheolaethau a deddfwriaethau diogelu data perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio polisïau, trefniadau rheoli a diogelu data digidol a ffisegol gwahanol wasanaethau, gwirio trefniadau hyfforddiant a gwirio pa gamau ychwanegol cymerir i sicrhau cydymffurfiaeth a gwella diogelwch data trigolion Gwynedd.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	5
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwiriwyd Polisi Diogelu Data y Cyngor. Mae'r polisi yn addas ac yn cynnwys gwybodaeth defnyddiol i staff. Mae pwynt 22 y polisi, 'Adolygu' yn nodi: 'Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen 2 flynedd.' Cymeradwywyd y polisi cyfredol ym Mai 2021 felly mae o fewn y cyfnod adolygu o 2 flynedd.

- 5.2 Roedd y Rheolwyr holiwyd yn ystod yr archwiliad yn ymwybodol o'r cyfnodau dargadw data. Derbyniwyd dogfen fanwl gan yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth sydd yn rhoi arweiniad clir ar fathau penodol o ddogfennau a data perthnasol i waith yr adran Gyllid. Adroddodd sawl rheolwr bod gwaith dinistrio dogfennau wedi llithro yn sgil COVID-19 a'r newidiadau i drefniadau gweithio ddilynodd. Mae sachau coch i fod i gael eu defnyddio er mwyn dinistrio nifer fawr o ddogfennau papur ar unwaith. Mae defnydd amhriodol o'r rhain yn cael eu gwneud drwy eu gadael allan a pheidio eu cadw dan glo. Mae hyn yn cynyddu'r risg o golled data i unigolyn maleisus gan bod ysgrifed ar y sachau coch yn nodi mai gwybodaeth sensitif sydd ynddynt.
- 5.3 Mae'r adran Gyllid yn defnyddio nifer o systemau cyfrifiadurol i brosesu a storio data. Mae'r rheolau ynglŷn a chyfnodau cadw yn berthnasol i'r data yma hefyd. Mynegwyd bryder am ddiffyg adnoddau a gallu systemau i ddileu neu di-enwi ('anonymise') yr hyn sydd angen ei ddileu yn unig. Mae trafodaethau wedi'u cynnal ynglŷn â hyn ar gyfer rhai systemau ond nid yw'r newidiadau yn weithredol eto. Mae rheolaethau cryf i reoli mynediad at systemau cyfrifiadurol Cyllid sy'n storio data sensitif.
- 5.4 Roedd cynllun hyfforddi Diogelu Data yn cael ei gynnal i holl staff yr adran Gyllid ym mis Hydref a Thachwedd 2022. Credir bod rhain wedi bod yn effeithiol yn sicrhau bod y rhan helaeth o staff Cyllid wedi derbyn hyfforddiant priodol. Gwiriwyd sampl o 12 aelod o staff yr adran, a gwelwyd eu bod i gyd wedi mynychu hyfforddiant Diogelu Data. Allan o'r 12 yma, dim ond 1 aelod o staff oedd wedi derbyn y Polisi Diogelu Data diwygiedig (Mai 2021). Roedd 10 heb dderbyn y Polisi ers 2018 ac un heb dderbyn y polisi o gwbl. Mae'n hanfodol bod staff yn darllen a deall eu cyfrifoldebau a goblygiadau peidio cydymffurfio.
- 5.5 Mae trefniadau priodol wedi eu hamlinellu mewn polisïau a gweithdrefnau TG i sicrhau bod y broses o roi mynediad i 3ydd partïon at systemau cyfrifiadurol y Cyngor yn ddiogel. Bydd 3ydd partïon angenrheidiol yn cael mynediad dros dro trwy 'Active Directory' (y system sy'n rheoli mynediad at rwydwaith y Cyngor). Darganfuwyd, gyda chymorth y Peiriannydd Diogelwch, bod rhai cyfrifon 'dros dro' heb eu cau. Mae'n bwysig bod mynediad yn cael ei rwystro unwaith bydd gwaith y 3ydd parti wedi ei gwblhau.

6. Camau Gweithredu

Mae Rheolwyr Cyllid a Gweinyddwyr Systemau Cyllid wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod sachau coch yn cael eu llenwi, cau a'u pasio i'r cwmni gwaredu yn syth neu eu cadw dan glo.**
- **Sicrhau bod unrhyw ddata papur sydd ddim o fewn y cyfnod cadw perthnasol yn cael ei ddinistrio.**
- **Rhoi trefn mewn lle i sicrhau bod data sydd ddim o fewn y cyfnod cadw perthnasol yn cael ei ddileu neu eu ddi-enwi (anonymise).**
- **Sicrhau bod staff yr adran Gyllid yn darllen a derbyn y Polisi Diogelu Data diwygiedig.**
- **Sicrhau bod cyfrifon 'dros dro' yn cael eu cau pan ddim mewn defnydd.**

CYNLLUNIO – TREFNIADAU CYFATHREBU**1. Cefndir**

1.1 Mae Siarter Cynllunio Cyngor Gwynedd yn gosod safon y gwasanaeth y bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn anelu i'w ddarparu i'r cwsmeriaid. Mae dyletswyddau'r Gwasanaeth yn cynnwys darparu cyngor cynllunio cyffredinol, cyngor cyn gwneud cais, ymdrin â cheisiadau cynllunio, ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, ymchwilio i honiadau o ddatblygiadau heb eu hawdurdodi ac ymdrin ag apeliadau cynllunio ac apeliadau gorfodaeth.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau cyfathrebu addas mewn lle ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol a gwirio sampl o ymholiadau a cheisiadau cynllunio a sicrhau bod y prydlondeb ymateb yn unol â Siarter Cynllunio Cyngor Gwynedd.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Yn unol â'r Siarter mae angen i'r gwasanaeth ymateb i unrhyw lythyrau a gohebiaeth electroneg gydag ateb llawn neu ateb dechreuol o fewn 15 diwrnod gwaith i'w derbyn. O'r sampl a ddetholwyd, roedd pob ymholiad wedi derbyn ymateb ond nid oedd 53% ohonynt o fewn yr amserlen.

- 5.2 Mae'r Siarter yn cyfeirio at Nodyn Canllaw ar Gyngor Cyn Gwneud Cais lle mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn darparu cyngor a gwybodaeth ffurfiol ysgrifenedig ar gyfer amryw o ddatblygiadau arfaethedig cyn i ymgeiswyr gyflwyno cais. Er bod cydnabyddiaeth awtomatig yn cael ei anfon i bob ymgeisydd sydd yn cyflwyno ceisiadau cyn gwneud cais am gynllunio i fewnflwch cynllunio a thrwy wefan y Cyngor nid yw'n cydnabod ceisiadau yn unol â'r Nodyn Canllaw. Gwiriwyd y sampl o geisiadau a gwelwyd bod 57% heb dderbyn llythyr cydnabod. O'r sampl oedd wedi derbyn cydnabyddiaeth, 67% oedd wedi cael eu hanfon o fewn 5 diwrnod gwaith yn unol â'r canllaw.
- 5.3 Bydd y Cyngor yn darparu cyngor ffurfiol ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod o ddyddiad cofrestru ffurflen gais am gyngor cyn cyflwyno cais sef y cyfnod statudol. Roedd pob cais yn y sampl wedi derbyn ymateb ond nid oedd 64% ohonynt o fewn yr amserlen. Cymerwyd 53 diwrnod ar gyfartaledd ar gyfer y sampl.
- 5.4 Mae'r Siarter yn nodi y dylid cysylltu gydag ymgeiswyr o fewn 5 diwrnod gwaith os yw cais yn anghyflawn ac / neu'n annilys. Nid oedd 30% o'r sampl a wiriwyd wedi derbyn llythyr yn eu hysbysu o hyn o fewn yr amser yma.
- 5.5 Yn unol â'r Siarter dylai ceisiadau cael eu rhoi ar 'Dilyn a Darganfod' o fewn 24 awr o'u cofnodi'n ddilys. Nid oedd 65% o'r sampl ar 'Dilyn a Darganfod' o fewn yr amser yma.
- 5.6 Yn unol â'r Siarter, ac yn statudol, dylid anelu i wneud penderfyniad ar o leiaf 70% o'r holl geisiadau cynllunio o fewn 8 wythnos, er gall ceisiadau mawr gymryd mwy o amser. Ar gyfer achosion lle cymerir mwy nag 8 wythnos, dylid rhoi gwybod i ymgeiswyr a rhoi rhesymau pe bai angen ymestyn y cyfnod. O'r sampl a wiriwyd, adnabuwyd bod 14/20 sef 70% wedi derbyn penderfyniad o fewn yr 8 wythnos. Gwiriwyd y 6 lle nad oedd penderfyniad wedi ei wneud o fewn 8 wythnos a gwelwyd mai 2 yn unig oedd wedi derbyn cytundeb estyniad amser (33%).
- 5.7 Ni welwyd cofnod bod ymweliad wedi digwydd ar gyfer pob cais perthnasol yn y sampl.
- 5.8 Mae'r Rheolwr Cynllunio yn ymwybodol bod methiannau o ran cyfnodau ymateb. Nodwyd er bod ochr staffio'r gwasanaeth wedi bod yn sefydlog ers tua blwyddyn mae problemau staffio, capasiti ac ôl gronid o waith yn deillio o'r cyfnod Covid yn parhau o fewn adrannau eraill y Cyngor ac mae oedi yn derbyn cyngor ar geisiadau yn parhau. Yn ogystal, mae swyddogion yn dueddol i ganolbwyntio ar geisiadau cynllunio gan fod mwy o risg gyda rhain h.y. posiblwydd o orfod ad-dalu ffioedd petai apêl yn darganfod bod diffyg penderfyniad.
- 5.9 Amlygwyd bod elfennau o'r Siarter Cynllunio a'r Nodyn Canllaw ar Gyngor Cyn Gwneud Cais angen eu diweddarau.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr Cynllunio wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Ymateb i fwy o geisiadau cyngor cyn-cyflwyno cais a cheisiadau cynllunio o fewn y cyfnodau statudol.**
- **Sicrhau bod pob ymgeisydd yn derbyn llythyr cydnabod a diweddariad o statws eu cais os bydd unrhyw oedi yn ymateb.**
- **Sicrhau bod swyddogion cynllunio yn gwirio bod pob ffeil yn gyflawn cyn penderfynu ar geisiadau a sicrhau bod Arweinyddion Tîm yn cadarnhau hyn cyn awdurdodi'r penderfyniadau.**
- **Adolygu Siarter Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Nodyn Canllaw ar Gyngor Cyn Gwneud Cais.**

TREFNIADAU CLEFYD COED YNN

1. Cefndir

- 1.1 Mae disgwyl y bydd rhwng 80-90% o bob coeden onnen yng Gwynedd yn marw o Glefyd Gwywiad yr Onnen ('Ash Dieback' neu 'Hymenoscyphus fraxineus') dros y blynyddoedd nesaf. Nid oes ffordd effeithiol o atal coed rhag cael i'w heintio, na thriniaeth ar gael i goed sydd eisoes yn dioddef. Mae gwasanaeth Clefyd Gwywiad yr Onnen wedi ei sefydlu yn y Cyngor i geisio rheoli a lliniaru effeithiau'r clefyd. Mae'r Gwasanaeth yn gymharol newydd felly nid yw'r holl drefniadau gweithredol mewn lle eto.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i reoli a lliniaru risgiau Clefyd Gwywiad yr Onnen yng Ngwynedd. Roedd yr archwiliad yn edrych yn bennaf ar sut mae'r gwasanaeth yn cynllunio i reoli'r clefyd drwy wirio trefniadau cynllunio, rheoli risg, hyfforddiant, rheoli coed, a chaffael y gwasanaeth. Bydd archwiliad yn y flwyddyn ariannol 2023/24 yn gwirio'n fanylach ar y trefniadau torri a thrin coed.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae Clefyd Gwywiad yr Onnen yn creu risgiau amlwg i bioamrywiaeth yng Ngwynedd, ond hefyd i bobl a cherbydau petai coed a changhennau yn pydru a disgyn. Mae wedi ei adnabod fel risg yn y gofrestr risg gorfforaethol ac mae camau gweithredu addas wedi eu nodi yma.

Roedd trefniadau rheoli risg manylach o fewn y gwasanaeth gydag asesiadau risgiau iechyd a diogelwch effeithiol yn cael eu cadw yn ogystal â chofnodion o risgiau byr a hirdymor y prosiect o reoli'r clefyd. Gwelwyd bod y risgiau iechyd a diogelwch cysylltiedig â'r gwaith yn cael eu lliniaru drwy hyfforddiant a chymwysterau priodol staff y gwasanaeth a thrwy gofnodi dulliau clir o sut i weithio'n ddiogel.

- 5.2 Er mwyn rheoli'r clefyd yn effeithiol mae'n holl bwysig bod cynllun gweithredu addas mewn lle gan y gwasanaeth er mwyn adnabod, blaenoriaethu a thorri coed, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer gwaith adfer. Roedd cynllun o'r fath yn y broses o gael ei lunio ar amser yr archwiliad, ond nid yw wedi ei gwblhau a'i gyhoeddi eto. Gwelwyd ei fod yn cynnwys yr hyn dybir i fod yn angenrheidiol o'r templed grëwyd gan y 'Tree Council'. Mae cynnwys da yn y cynllun ynglŷn â strategaeth archwilio coed a'u torri. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod ffigyrau cyfredol a chywir yn cael eu rhoi yn y cynllun. Mae hefyd angen cynnwys manylion pellach megis prosesau cyfathrebu gyda perchnogion tir preifat, cynllun plannu ac adfywio bioamrywiaeth ayyb.
- 5.3 Cynhaliwyd adolygiad o goed Ynn yng Ngwynedd yn 2020 i gefnogi'r cais i greu gwasanaeth Clefyd Gwywiad yr Onnen penodol. Dyma'r data mwyaf diweddar sydd yn bodoli am y rhan helaeth o goed Ynn Gwynedd heblaw am rai adolygiadau ychwanegol sydd wedi eu cynnal yn y cyfamser. Detholwyd sampl o 10 coeden o flaenoriaeth uchel ar dir Gwynedd. Dylai coed blaenoriaeth uchel gael eu hadolygu yn flynyddol. Gwelwyd bod 8 o'r 10 coeden wedi eu hadolygu yn 2020 a bod 2 o'r 10 wedi eu hadolygu yn 2022. Golygai hyn bod 8 o'r 10 coeden oedd yn y sampl heb eu hadolygu ers dros 2 flynedd. Mae risg o goed yn disgyn yn cynyddu os oes amser rhy hir rhwng adolygiadau.
- 5.4 Mae'r gwasanaeth yn cydweithio gyda chwmni sydd â meddalwedd 'Ezytreev'. Mae'n ddatrysiad digidol bydd yn disodli'r map a basdata presennol. Bydd angen sicrhau bod y data yn cael ei fudo yn gywir i mewn i'r system pan fydd yn weithredol a bod gwiriadau rheolaidd o goed Ynn Gwynedd yn cael eu cynnal.
- 5.5 Gwiriwyd drefniadau caffael y gwasanaeth gan eu bod yn defnyddio contractwyr allanol i dorri coed ynn. Roedd trefniadau caffael addas mewn lle gyda camau priodol yn cael eu cymryd yn seiliedig ar y gwariant ar waith. Daeth i sylw'r Archwiliwr bod un achos ble na wobrwyyd y gwaith i'r cwmni gyda'r pris isaf. Cyfiawnhawyd hyn ar lafar gan yr Uwch Swyddog Clwyf Gwywiad yr Onnen ond nid oedd unrhyw gofnodion ar ffeil yn amlinellu'r meini prawf anariannol nac unrhyw gofnod i gefnogi'r penderfyniad.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Uwch Swyddog Clwyf Gwywiad yr Onnen wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Sicrhau bod cynllun gweithredu addas yn cael eu lunio ar gyfer y gwasanaeth.
- Sicrhau bod y system 'Ezytreev' yn diwallu anghenion y gwasanaeth a bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o goed ynn Gwynedd.
- Sicrhau bod mini prawf ar gyfer gwaith a rhesymau dros benderfyniadau caffael yn cael eu cofnodi.

RHEOLI PROSIECTAU YGC

1. Cefndir

Mae YGC yn rheoli ystod eang o brosiectau dylunio ac adeiladu. Mae trefniadau rheoli'r prosiectau yn amrywio, ac yn ddibynnol ar eu gwerth, y ffynhonnell â ariennir y prosiect a'r cymwysterau a phrofiad angenrheidiol er mwyn eu rheoli. Golyga hyn fod nifer o aelodau staff YGC yn ymgymryd â rôl rheolwr prosiect gan arwain at amrywiaeth mewn trefniadau a'r dulliau â ddefnyddir i reoli'r gwahanol prosiectau.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau rheoli prosiectau YGC yn briodol gyda chysondeb yn y prosesau a ddilynrir gan y rheolwyr prosiect. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol a gwirio trefniadau rheoli sampl o brosiectau ac adolygu'r systemau a ddefnyddir er mwyn cofnodi a ffeilio'r wybodaeth.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Cynhaliwyd archwiliad ar y maes hwn yn 2021/22 ac ar amser yr archwiliad hwnnw, roedd YGC yn y broses o fabwysiadu system K2 gyda'r bwriad i unai ddisodli'r nifer o wahanol systemau â ddefnyddir yn bresennol, neu integreiddio elfennau ohonynt er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac anghysondebau o ran y trefniadau gweinyddiaeth. Mae elfennau o K2 wedi eu sefydlu bellach ond mae sgôp y system wedi cynyddu i gynnwys llawer mwy o agweddau o waith YGC megis hyfforddiant staff a.y.b.

Oherwydd hyn, nid yw'n hollol weithredol fel datrysiaid rheoli prosiectau cyflawn i YGC. Mae hyn yn arwain at waith yn cael ei ddyblygu gan bod gwybodaeth a dogfennau yn cael eu cofnodi mewn mwy nac un lle. Mae cyfuniad o systemau K2, Keyedin a SharePoint yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i gofnodi pob agwedd o brosiectau YGC.

5.2 Gwelwyd bod archwiliadau mewnol yn cael eu cynnal o fewn YGC gan y Swyddog Amgylcheddol a Sicrhau Ansawdd. Maent yn cael eu cynnal 3 gwaith y flwyddyn ac yn gwirio elfennau cyfreithiol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch ac ariannol ar gyfer prosiectau pob gwasanaeth o fewn YGC.

5.3 Detholwyd sampl o 7 prosiect diweddar. Gwiriwyd os oedd y prosiectau wedi eu rheoli yn unol â gofynion trefniadau gweithredu safonol YGC a gwelwyd ar y cyfan eu bod ond bod anghysondebau yn y lefelau o fanylder a threfniadau cadw dogfennau ar draws y gwahanol brosiectau. Gwelwyd bod gwahaniaethau rhwng trefniadau storio dogfennau gwahanol Reolwyr Prosiect, ond y buasai mabwysiadu system K2 yn llwyr yn sicrhau cysondeb.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Busnes a Chyflawni Prosiect a'r Swyddog Systemau Busnes Integredig wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Datblygu system K2 i gefnogi pob agwedd o reoli prosiectau.**

NEUADD DWYFOR**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Neuadd Dwyfor wedi ei hadnewyddu yn ddiweddar, er roedd gwaith adeiladu annisgwyl yn parhau ar amser yr archwiliad. Pan yn hollol weithredol, bydd Neuadd Dwyfor yn dangos ffilmiau yn y sinema, a chynnal sioeau a chyngherddau yn y theatr. Mae hefyd llyfrgell a chaffi ar y safle yn ogystal â ystafelloedd i'w llogi. Ar amser yr archwiliad, nid oedd y theatr, sinema na'r ystafelloedd i'w llogi ar gael i'r cyhoedd oherwydd y gwaith adeiladu oedd yn mynd rhagddo.

2 Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu incwm a thaliadau Neuadd Dwyfor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau rheoli arian parod, trefniadau derbyn incwm ar-lein, ynghyd â phrosesu taliadau.

3 Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4 Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	7
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Ar amser yr archwiliad, dim ond y caffi a'r llyfrgell oedd wedi bod ar agor yn Neuadd Dwyfor, a hynny ers rhai misoedd. Derbynnir felly bod dim ffigyrau ariannol dibynadwy i'w defnyddio ar gyfer gwneud damcaniaethau ariannol. Pan fydd Neuadd Dwyfor yn hollol agored, bydd cynllun busnes yn hanfodol er mwyn sicrhau nad oes cyfleoedd i gynhyrchu incwm a gwasanaethu'r cyhoedd yn cael eu methu. Mynegodd y Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd bod elfennau o'r cynllun eisoes ar waith.

- 5.2 Darganfuwyd bod gwarged o £67 yn fflôt y Neuadd. Roedd cyfanswm y fflôt yn arfer bod yn £220 ond newidiwyd i £153. Nid oedd defnydd yn cael ei wneud o'r arian parod yma felly mae'n cynyddu effaith y risg o golledion ariannol i'r Cyngor yn ddiangen. Cytunwyd dylid ei ddychwelyd i'r Cyngor.
- 5.3 Cedwir derbyniadau arian parod y Neuadd mewn diogell, ac mae rheolaeth mynediad staff a'r cyhoedd ato yn effeithiol tra bod rhannau'r Neuadd ar gau. Fodd bynnag, cyn i weddill y Neuadd ail-agor i'r cyhoedd, dylid cadw'r arian parod mewn man diogel arall gan bydd y risgiau cysylltiedig yn cynyddu. Nid yw derbyniadau yn cael eu bancio yn wythnosol, sydd yn cynyddu effaith y risg o golledion ariannol i'r Cyngor.
- 5.4 Roedd sieciau arian mân yn y Neuadd a dim defnydd yn cael eu gwneud ohonynt. Mae'n bwysig bod arian mân yn cael ei ddefnyddio i brynu nwyddau addas yn hytrach na staff yn hawlio ad-daliadau wedi iddynt archebu nwyddau gyda'u harian eu hunain. Mae angen i'r Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd a'r Swyddog Celfyddydau Perfformiadau benderfynu ar drefniadau a defnyddio neu diddymu'r sieciau yn unol â'u penderfyniad.
- 5.5 Gwiriwyd sampl o incwm y Neuadd. Cysonwyd y trafodion incwm oedd yn dod trwy'r we â'r trafodion arian parod. Nid oedd modd cysoni cofnodion incwm peiriannau cerdyn y Neuadd gyda'r hyn oedd yng nghyfriflyfr ariannol y Cyngor. Daeth i sylw'r Archwiliwr mai 1 taflen TR34 (taflen cofnodi incwm) oedd yn cael ei chreu yn ddyddiol ar gyfer trafodion peiriannau cerdyn. Mae 3 pheiriant cerdyn mewn defnydd yn y Neuadd felly dylai bod 3 taflen TR34 yn cael eu llenwi i sicrhau bod trywydd archwilio addas ar gyfer unrhyw incwm gofnodir. Roedd gwahaniaethau rhwng yr hyn gofnodwyd ar y taflenni TR34 â'r hyn oedd yn cyrraedd y banc yn y sampl ddetholwyd.
- 5.6 Gwiriwyd hyfforddiant 3 aelod o staff gan gynnwys y Swyddog Celfyddydau Perfformiadau a gwelwyd nad oedd hyfforddiant ariannol wedi ei dderbyn gan unrhyw un ohonynt. Credir buasai'n fuddiol i'r Swyddog Celfyddydau Perfformiadau dderbyn hyfforddiant ariannol ac/neu hyfforddiant ar drefniadau incwm gan y Swyddog Prosesu a Chysoni Incwm.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd a'r Swyddog Celfyddydau Perfformiadau wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Creu cynllun busnes ar gyfer Neuadd Dwyfor.
- Dychwelyd y £67 o warged oherwydd fflôt hanesyddol.
- Sicrhau bod arian parod (heb law am fflôt) yn cael ei gadw mewn man diogel ble nad oes gan y cyhoedd fynediad ato pan fydd rhannau y Neuadd yn ail-agor.
- Defnyddio neu diddymu sieciau arian mân (petty cash).
- Bancio arian parod yn wythnosol.
- Cwblhau TR34 taliadau cerdyn ar gyfer pob til yn unigol a sicrhau eu cywirdeb.
- Trefnu hyfforddiant ariannol priodol i'r Swyddog Celfyddydau Perfformiadau.

CANOLFAN FUSNES ADDYSG**1. Cefndir**

1.1 Pwrpas y Ganolfan Fusnes Addysg yw darparu gwasanaeth sy'n cefnogi rheolaeth gweinyddol effeithiol i ysgolion cynradd Gwynedd.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle yn y Ganolfan Fusnes er mwyn sicrhau bod cefnogaeth effeithiol ar gael i reoli ysgolion Gwynedd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r gefnogaeth i sampl o ysgolion gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag elfennau gwahanol o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth megis rheolaeth ariannol, rheoli gwybodaeth (SIMS), cefnogaeth i benaethiaid a chymorthyddion gweinyddol ynghyd â gweinyddu penodiadau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae'r Ganolfan Fusnes Addysg yn ymgynghori yn rheolaidd gyda'r Bwrdd Rheoli, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o benaethiaid ysgolion cynradd. Detholwyd sampl o dair ysgol (Ysgol Chwilog, Nebo ac Yr Eifl) a gwelwyd gopi o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) sydd rhwng yr ysgolion a'r Ganolfan Fusnes Addysg, ond roedd rhai elfennau yn y cytundeb yn amherthnasol gan fod trefniadau newydd bellach mewn lle. Roedd yr Arweinydd Canolfan Fusnes yn ymwybodol o hyn ac eisoes wedi creu dogfen gyda bob dim sydd angen ei newid neu dynnu allan o'r cytundeb. Mae'r CLG cyfredol yn dod i ben ym mis Mawrth 2024 a bydd cytundeb newydd yn cael ei drefnu maes o law.

- 5.2 Gwiriwyd y drefn prosesu archebion a gwelwyd nad oedd cysondeb gan yr ysgolion gan bod rhai yn codi'r ffon i wneud archebion, rhai yn archebu ar lein a rhai yn gwneud archebion ar system ariannol FMS (Financial Management System). Nid oedd yr ysgolion yn gwneud archeb ar gyfer pob achos ar y system FMS, ac felly nid yw'n rhoi darlun hollol gywir o wariant yr ysgolion a'r arian sydd ar ôl, gan nad yw adroddiadau cyllidol a gynhrychir o'r system FMS yn cynnwys gwariant archebion sydd heb eu codi drwy'r system FMS. Mae'r Ganolfan yn y broses o edrych ar dreialu system e-gaffael ar gyfer yr ysgolion fel y system sydd gan y Cyngor yn fewnol.
- 5.3 Gwelwyd bod y Ganolfan Fusnes yn cynnig cefnogaeth i benaethiaid, staff a chymhorthyddion clerigol newydd drwy gael cyfarfodydd neu drwy ymweld â'r ysgol yn ôl yr angen. Gwelwyd dogfennau a chanllawiau sydd wedi eu creu fel arweiniad/cefnogaeth i'r ysgolion ar gyfer penodiadau newydd, hysbysebu swyddi, a phrosesu anfonebau. Mae hefyd gwaith ar y gweill er mwyn creu mewnrwyd ar gyfer y Ganolfan Fusnes Addysg yn dilyn anfon holiadur allan i weinyddwyr ysgolion yn ogystal â gwaith ymgynghori a wnaethpwyd gyda'r Bwrdd Rheoli, er mwyn hwyluso mynediad at y wybodaeth yn ymwneud â'r Ganolfan Fusnes Addysg.
- 5.4 Mae adroddiadau 'Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion' (CBGY) a 'Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion' (CYBLD) yn cael eu cynhyrchu yn flynyddol. Gwneir hynny drwy fewnbynnu'r wybodaeth i SIMS a'u llwytho wedyn i safle DEWi, er mwyn cynhyrchu adroddiadau i anfon i'r ysgolion i'w gwirio. Os bydd angen addasu'r wybodaeth ymhellach, bydd hynny yn cael ei wneud yn SIMS gyntaf ac wedyn fe gaiff ei ail lwytho wedyn i safle DEWi. Yn ogystal, gwelwyd bod y Ganolfan Fusnes yn sicrhau bod y systemau Addysg, FMS a SIMS.net yn cael eu cadw'n gyfredol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Arweinydd Canolfan Fusnes Addysg wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Edrych ar systemau ble mae'n haws i godi archeb, fel system e-gaffael ac annog ysgolion yr mwyaf i gymryd cerdyn credyd eu hunain.**

CINIO AM DDIM**1. Cefndir**

1.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar y 20 Mawrth 2022 y bydd prydau cinio ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd Cymru, yn raddol o fis Medi 2022 ymlaen. Bydd plant ieuengaf ysgolion cynradd yn gymwys i ddechrau cyn i'r cynllun gael ei ymestyn yn raddol i holl blant ysgolion cynradd dros y dair mlynedd nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i gynllunio a pharatoi'r seilwaith sydd ei angen er mwyn cyfarch y gofyn ychwanegol tybiedig am brydau ysgol. Mae cyllid refeniw o hyd at £200m wedi'i neilltuo i awdurdodau lleol gyflawni'r ymrwymiad, £40m i'w ddarparu yn 2022 i 2023, £70m yn 2023 i 2024 a £90m yn 2024 i 2025.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn paratoi ar gyfer holl blant ysgolion cynradd yn dod yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau gweinyddu a gweithredu ar ddarparu'r cinio am ddim drwy sicrhau bod yr ysgolion yn cynllunio'n briodol a gyda'r gallu i reoli'r cynnydd mewn galw yn ogystal â darparu gwasanaeth o safon a sicrhau nad yw plentyn sydd yn gymwys yn colli allan ar ginio am ddim.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwelwyd bod cynlluniau a threfniadau priodol mewn lle ar gyfer paratoi a chyflwyno cinio ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd Gwynedd. Penderfynwyd bydd ysgolion Gwynedd yn cychwyn gyda plant dosbarthiadau derbyn a blwyddyn 1 yn derbyn y cinio am ddim ym mis Medi 2022, plant blwyddyn 2 erbyn Ionawr 2023, gyda plant pob blwyddyn yn derbyn cinio ysgol am ddim erbyn Medi 2023, sef blwyddyn yn gynt 'na tharged Llywodraeth Cymru o 2024.

4.2 Gwelwyd bod pob ysgol wedi gweithredu ar y cynlluniau a bod cinio ysgol am ddim wedi bod yn weithredol yn amserol ar draws ysgolion cynradd Gwynedd. Mae nifer o ysgolion yn o broes o gael estyniad er mwyn cael rhagor o le i gadw offer a stoc, ac mae ceisiadau wedi mynd am ragor o staff cegin.

- 4.3 Wrth wirio'r cyfrifylfr, nid oedd yn bosib cysoni'r taliadau yn ôl i'r cais am ad-daliad a gyflwynwyd yn fisol i Lywodraeth Cymru. Mynegodd y Cyfrifydd Grŵp 'Mae'r taliad Medi wedi ei dalu fel un swm gyda taliad Hydref wedi ei dalu fel rhan o gais cynhwysfawr chwarter 3 LAEG.' Nid oedd taliad ar gyfer mis Tachwedd 2022 wedi'i dderbyn yn ystod yr archwiliad (Chwefror 2023) ond bod swyddogion cyllid yn dilyn i fyny ar y mater. Eglurwyd bod y grant LAEG yn cyfuno nifer fawr o grantiau i fewn i un grant cynhwysfawr felly yn unol â'r drefn arferol, bydd yr Uned Gyllid Datblygu yn cytuno'r incwm ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r hawliadau a baratowyd i Lywodraeth Cymru.
- 4.4 Mynegodd y Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Addysg nad yw cyfradd y taliad, sef £2.90 y pen a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i dalu am gostau cinio ysgol a bod trafodaethau fforwm traws Gymru yn anelu i'w ddatrys.

TREFNIADAU RECRIWTIO A DARGADW STAFF

1. Cefndir

1.1 Cafodd materion anawsterau recriwtio a dargadw staff eu hadrodd i'r Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Mehefin 2019. Ers y pandemig, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu gyda lefelau uchel o staff yn gadael y maes gan gynyddu pwysau gwaith y staff presennol. Golyga hyn bod risg o'r Cyngor yn methu â darparu gwasanaeth statudol i'r cyhoedd, felly mae'n bwysig bod cynlluniau mewn lle er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer recriwtio a dargadw staff yn yr adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r Polisi Recriwtio a Phenodi, trefniadau monitro, sampl o hysbysebion a ffurflenni cais, cynlluniau ar gyfer dargadw staff ynghyd â chynlluniau wrth gefn ar gyfer lliniaru risgiau diffyg adnoddau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod strategaeth recriwtio a dargadw staff mewn lle gan yr adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, a bod cyfarfodydd recriwtio yn cael eu cynnal i drafod digwyddiadau, ymgyrchoedd a rhannu syniadau. Cynhaliwyd ymgyrchoedd yn lleol drwy dargedu ardaloedd sydd yn profi trafferthion staffio. Mae'r adran, ar y cyd gyda phartneriaid yn ceisio newid y ddelwedd sy'n bodoli yn y maes gofal, gan amlygu'r ystod eang o gyfleodd sy'n bodoli, hyblygrwydd y cytundebau sydd ar gael a'r buddiannau i staff.

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r broses o benodi staff newydd ac mae addasiadau wedi cael eu gwneud i symleiddio'r broses a'i chyflymu e.e. symleiddio'r ffurflen gais.

- 5.2 Gwiriwyd 19 o hysbysebion swyddi ar wefan y Cyngor ar adeg yr archwiliad ac roedd y cyfan yn cynnwys y datganiadau gofynnol sy'n annog ymgeiswyr i gyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg neu ddwyieithog. Yn unol â Pholisi Gweithdrefn Recriwtio a Phenodi, mewn amgylchiadau ble mae problemau recriwtio, gall y gwasanaeth ystyried penodi unigolyn sydd ddim yn cyrraedd y sgiliau ieithyddol angenrheidiol ond sy'n fodlon ymrwymo i ddysgu, a hynny ar y trydydd hysbyseb sy'n cynnwys datganiad ychwanegol yn esbonio hyn. Gwelwyd nad oedd tri o'r hysbysebion yn cynnwys y datganiad yma er bod un o'r swyddi wedi cael eu hysbysebu 5 gwaith a'r ddau arall wedi eu hysbysebu 8 gwaith.
- 5.3 Yn ystod y cyfnod Ebrill 2021 hyd at Mawrth 2022, gwelwyd bod 9 aelod o staff o dimau gwaith cymdeithasol yn y maes Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi gadael i fynd i weithio i awdurdodau lleol eraill. Darganfuwyd bod grŵp gorchwyl wedi ei sefydlu er mwyn edrych ar gyflogau gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol. Yn ogystal, gwelwyd bod yr adran yn ceisio denu arian o gronfeydd gwahanol gan gynnwys gwneud bid am y 'Cynllun Yfory', ond er yn aflwyddiannus ar yr achlysur yma, nodwyd bod yr adran Corfforaethol yn hapus i gael trafodaethau ar sut i gydweithio i blethu yr elfennau datblygol 'Cynllun Yfory' a'r cynllun o recriwtio gweithwyr cymdeithasol.
- 5.4 Nodwyd ym Mhwyllgor Craffu Gofal yn Medi 2022 bod cyfraniadau ariannol yn cael eu gwneud ar gyfer cyflogau staff yn y maes gofal gan gynnig 9.99% o gynnydd ar bwynt uchaf nifer o'r staff rheng flaen, a 10.19% ar gyfer unigolion sydd ar y pwynt isaf. Mae swydd disgrifiadau holl staff rheng flaen y maes gofal oedolion mewnol (mae gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol yn cael eu heithrio o'r categori yma), wedi cael eu hadolygu a'u hail arfarnu, gyda bid wedi ei wneud am gyllideb i ariannu y gwahaniaeth rhwng y graddfeydd cyflog cyfredol a'r arfarniad newydd.
- 5.5 Un o'r trefniadau sydd mewn lle gan yr adran yw sefydlu cyfweiliadau gadael wrth i unigolyn adael eu swydd er mwyn gallu gweld patrymau a rhesymau dros adael. Eglurodd y Rheolwr Datblygu Gweithlu bod rhywfaint o anawsterau wedi bod gyda'r system yma, a bod y gwasanaeth yn bwriadu symud y system ffurflenni gadael i hunanwasanaeth. Mae dros 95% o'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi cofrestru gyda hunanwasanaeth, ond mae'r niferoedd mwyaf sydd heb gofrestru yn gweithio mewn Cartrefi Preswyl.
- 5.6 Gwiriwyd sampl o 10 o staff a gychwynnodd gyda'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant o mis Medi 2022 ymlaen, a gwelwyd nad oedd unrhyw un wedi darllen y polisiau sydd ar fewnrwyd y Cyngor.

6. Camau Gweithredu

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod datganiadau ychwanegol yn cael eu cynnwys ym mhob trydydd hysbyseb yn unol â'r Polisi Gweithdrefn a Recriwtio.**
- **Trefnu cynnal cyflwyniadau a hyfforddiant ar systemau y Cyngor er mwyn cynyddu defnydd staff a'i ychwanegu fel rhan o'r broses anwythiad.**
- **Symud y system ffurflenni gadael i system Hunanwasanaeth y Cyngor.**
- **Hybu rheolwyr i roi gwybodaeth am y ffurflenni gadael i staff.**

MESURAU DIOGELU AMDDIFFYFN RHYDDID**1. Cefndir**

- 1.1 Cyflwynwyd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (Liberty Protection Safeguards - LPS) yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a byddent yn disodli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (Deprivation of Liberty Safeguards - DoLS).
- 1.2 Mae'r LPS wedi'u cynllunio i atgyfnerthu hawliau, dymuniadau a theimladau pobl, sy'n golygu eu bod wrth wraidd yr holl benderfyniadau ar eu gofal, eu cymorth a'u triniaeth, gan gynnwys lle mae amddifadu rhywun o ryddid yn cael ei ystyried.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i ymateb i ofynion newydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, yn ogystal â sicrhau bod y trefniadau presennol DoLS yn addas i bwrpas. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu sicrhau bod trefniadau digonol mewn llaw ar gyfer y gyfundrefn newydd yn ogystal â gwirio trefniadau presennol ar gyfer asesiadau DoLS.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	2
CANOLIG	0
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Nid yw dyddiad targed Llywodraeth y DU ar gyfer gweithredu'r LPS a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 wedi'i gadarnhau eto. Y bwriad yw y bydd Llywodraeth y DU yn ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad diweddar wrth gytuno ar ddyddiad gweithredu. Bydd y rheoliadau newydd i Gymru yn nodi sut y bydd yr LPS yn gweithredu yng Nghymru. Yn sgil hyn mae'r DoLS yn parhau'n weithredol.

- 5.2 Bydd y flwyddyn gyntaf o weithredu'r LPS yn flwyddyn bontio, lle bydd y DoLS a'r LPS yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd. Yn ystod y flwyddyn drosiannol hon caiff achosion newydd yn ogystal ag adolygiadau o awdurdodiadau DoLS presennol eu hystyried o dan yr LPS. Bydd trefniadau pontio tebyg ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd drwy'r Llys Gwarchod.
- 5.3 Mae cynllunio a hyfforddi'r gweithlu fydd yn ymwneud â gweithredu'r LPS yn hollbwysig. Bydd angen sicrhau bod digon o weithwyr AMCP¹ hyfforddedig, digon o Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (Independent Mental Capacity Advocate - IMCA), yn ogystal â phobl sydd wedi'u hyfforddi i gynnal asesiadau, penderfyniadau ac adolygiadau cyn-awdurdodi. Nid oes trefniadau pendant o ran hyfforddiant mewn lle ar hyn o bryd gan nad oes côd ymarfer wedi eu sefydlu gan Lywodraeth y DU yn dilyn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, nodwyd bod sylw yn cael ei roi i ganolbwyntio ar gynyddu gwybodaeth swyddogion ynglŷn â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol fel bod ganddynt sylfaen ar gyfer hyfforddiant LPS pan y daw.
- 5.4 O dan drefniadau DoLS cynhelir asesiadau gan yr Aseswyr Pennaf Les (Best Interest Assessors - BIA). Ar hyn o bryd mae'r Tîm DoLS yn cynnwys y Cydlynnydd DoLS ac un Gweithiwr Cymdeithasol - BIA; mae'r ddwy yn gweithio rhan-amser. Mae gan y Cyngor nifer o swyddogion BIA ond nid ydynt yn gweithio llawn amser ar achosion DoLS, gan eu bod mewn swyddi eraill o ddydd i ddydd sydd yn cael blaenoriaeth. Er ymdrechion y gwasanaeth i benodi BIA nid ydynt wedi bod yn llwyddiannus. Defnyddir arian grant i gyflogi staff asiantaethau a BIA preifat. Mae'r diffyg adnoddau mewn staff yn y maes yn golygu bod risg uchel bydd y Cyngor methu â pharatoi at yr LPS a darparu gwasanaeth priodol diogelu ac amddiffyn unigolion bregus/mewn risg.
- 5.5 Mae nifer uchel o unigolion ar y rhestr aros ar gyfer cael eu hasesu, rhai ers sawl mlynedd sydd ddim yn cydymffurfio â'r Ddeddf bresennol (Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005). Yn dilyn dadansoddiad o'r data DoLS daeth i'r amlwg nid yw'n gwbl gyfredol h.y. mae posibilrwydd bod yr unigolion wedi symud cartref neu farw ers derbyn y cais.
- 5.6 Mae'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd i gwblhau asesiad arferol ar gyfer y sampl a wiriwyd yn sylweddol uwch na ddisgwyliwyd. Golyga hyn bod risg gall y Cyngor cael ei gosbi.

6. Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Parhau i wirio am unrhyw ddiweddariadau yn ymwneud a'r LPS drwy fynychu cyfarfodydd o'r Grwp LPS Cenedlaethol, parhau i drafod gyda'r tim datblygu gweithlu.**

¹ Approved Mental Capacity Professional

- Parhau i gadw cyswllt gyda'r cyswllt rhanbarthol ar gyfer diweddariadau yn ogystal â pharhau i ddarparu hyfforddiant i swyddogion ynglŷn â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Trefnu bod Cymhorthydd Gweinyddol yn glanhau data'r daenlen DoLS yn fisol.
- Parhau i sefydlu rhestr o swyddogion BIA allanol y gellir eu defnyddio i gynnal yr asesiadau.
- Defnyddio arian grant (dibynnol os ceir rhagor o grant gan y Senedd) i gyflogi staff asiantaeth a BIA allanol i geisio mynd i afael a'r rhestr aros.
- Parhau i ofyn i'r swyddogion BIA mewnol i gynnal asesiadau yn amser eu hunain.

MANDDALIADAU

1. Cefndir

- 1.1 Mae darpariaeth statudol o fanddaliadau gan y sector gyhoeddus, sef unedau cymharol fach o dir ac eiddo caiff ei ddefnyddio at bwrpas amaethyddol, yn dyddio yn ôl i Ddeddf Manddaliadau 1892. Cafodd y mwyafrif ohonynt eu sefydlu yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf gyda'r bwriad o gynnig cyfleoedd i deuluoedd ifanc ddechrau ffermio ar eu liwt eu hunain. Caiff y manddaliadau yma eu rhentu allan i denantiaid am incwm.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer cynnig y cyfleon gorau i amaethwyr ifanc Gwynedd a sicrhau bod system rheolaeth ddigonol mewn lle ar gyfer gosod a rheoli manddaliadau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu polisïau, trafodion y cyfriflyfr a phrosesau casglu incwm, cytundebau a threfniadau cynnal a chadw.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	4
CANOLIG	0
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Ym mis Mawrth 2018, roedd Archwilio Mewnol o'r farn na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau incwm manddaliadau gan nad oedd rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

- 5.2 Mabwysiadwyd Polisi Rheoli Manddaliadau gan y Pwyllgor Eiddo yn, 1996 ac fe'i adolygwyd gan y Gweithgor Manddaliadau yn 2009. Yn ogystal, trafodwyd trefniadau rheoli stad manddaliadau'r Cyngor gan y Cabinet yn 2019. Fodd bynnag, nid yw'r Polisi wedi ei ddiweddarau er mwyn cynnwys gweithdrefnau presennol.
- 5.3 Detholwyd sampl o fanddaliadau drwy wirio incwm rhent yn y cyfrifyfr. Darganfuwyd yn ystod archwiliad mewnol 2018 bod y Cyngor yn codi anfonebau drwy filio cylchol, 'recurring billing', sy'n golygu cynhyrchir anfonebau cyfnodol yn awtomatig, a hynny am nifer penodol o flynyddoedd, ond roedd rheolaethau o fewn y system ariannol yn cyfyngu'r nifer hyd at rhai blynyddoedd. Pan daeth y cyfnodau bilio yma i ben, nid oedd yr anfonebau rhent yn cael eu codi, ac nid oedd hyn yn wybodus i'r Gwasanaeth gan arwain at golledion. Mae'r adran Gyllid wedi gallu addasu y system fel bod cyfnodau y bilio cylchol llawer ehangach erbyn hyn.
- 5.4 Derbyniwyd copi o ddogfen Excel mae'r Gwasanaeth yn defnyddio i weinyddu'r stadau. Mae'n nodi'r hyn sy'n wybodus i'r Gwasanaeth am holl fanddaliadau'r Cyngor ar sail gwybodaeth a gasglwyd gan gyn swyddog manddaliadau. Eglurodd y Rheolwr Stadau oherwydd trafferth recriwtio nad oes swyddog penodol wedi bod yn rheoli'r manddaliadau ers i'r cyn swyddog adael, felly mae'r Cyngor wedi penodi cwmni allanol o Syrfewyr Siartredig i wneud y gwaith. Gwelwyd nad oedd y wybodaeth am y manddaliadau yn gyflawn gan fod llawer o'r wybodaeth hanesyddol yn debygol o fod ar ffeiliau papur. Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol o hyn ac yn gweithio gyda'r cwmni allanol i adolygu a ffurfioli trefniadau, a datrys materion cyfreithiol hanesyddol.
- 5.5 Gwelwyd wyth enghraifft o anghysondebau rhwng y swm rhent blynyddol sydd wedi'i nodi ar daenlen y Gwasanaeth a'r hyn sydd wedi ei anfonebu i'r tenant. Er bod cytundeb tenantiaeth newydd wedi'i llunio ar ôl yr adolygiad rhent diwethaf yn 2018, ymddengys bod sawl tenant yn parhau i dalu y swm rhent sydd yn llai na'r hyn yn dilyn yr adolygiad. Cynhelir yr adolygiad rhent nesaf yn hwyrach yn 2023.
- 5.6 Mae'r Gwasanaeth yn derbyn adroddiad chwarterol o ôl-ddyledion rhent tenantiaid. Mae nifer o denantiaid yn talu yn fisol, ond gwelwyd esiamplau hanesyddol o anfonebau rhent blynyddol yn parhau yn ddyledus.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr Stadau wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Diweddarau Polisi Rheoli Manddaliadau er mwyn sicrhau cysondeb, gan gwmpasu e.e. cyfrifoldebau, trefn gosod yr unedau, adolygu rhent, ad-ennill dyledion a gweinyddiaeth mewnol.**
- **Diweddarau cofnodion y Gwasanaeth gyda manylion cyfredol y man-ddaliadau.**
- **Sicrhau bod y tenantiaid yn talu y rhent cywir.**
- **Gwirio adroddiadau ôl-ddyledion a gweithredu ar y cyd gyda'r adran Gyllid i'w had-ennill.**